DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei

Inspection date: 21 Mawrth 2017

Publication date: 22 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol
© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2

2. Cyd-destun ..... 3

3. Crynodeb ..... 4

4. Canfyddiadau ..... 5

   Ansawdd Profiad y Claf ..... 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ..... 8

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 13

5. Y Camau Nesaf ..... 15

6. Methodoleg ..... 16

   Atodiad A ..... 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei, Alliance House, 17 Stryd y Cei, Caerdydd CF10 1AE ar 21 Mawrth 2017.

Esboniodd AGIC sut roedd My Dentist, Stryd y Cei yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd.  Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, dwy nyrs ddeintyddol, dau hylenydd, un derbynnydd, un derbynnydd/cydlynydd triniaethau, a rheolwr practis.

Integrated Dental Holdings (IDH) sy'n berchen ar My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Clinig Deintyddol My Dentist yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd system ar waith i dystio bod staff wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal a oedd yn rhoi tystiolaeth bod y practis yn ymdrechu i wella ei wasanaethau yn barhaus.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Dylid cynnal adolygiad o ran yr amgylchedd, yn benodol yr ystafelloedd triniaeth, er mwyn sicrhau bod y cypyrddau a'r offer mewn cyflwr boddhaol i leihau problemau o ran rheoli heintiau a allai godi yn sgil y difrod a welsom
- Roedd angen cael biniau pedal troed y gellir eu cau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio yn lle'r biniau yn yr ardaloedd clinigol
- Rhaid i'r staff gael arfarniadau rheolaidd a rhaid eu cofnodi
- Roedd angen gwella cofnodion cleifion, yn benodol er mwyn sicrhau bod y papurach cywir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat; Dylai'r cynlluniau triniaeth gynnwys gwybodaeth lawn a chynhwysfawr; Mae angen i'r Taflenni Cofrestru Cleifion gael eu cwblhau a'u storio'n briodol yn gyson.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dangosodd adborth gan gleifion yn yr holiaduron AGIC bod y cleifion yn fodlon ar y gofal yr oeddent yn ei dderbyn a'r wybodaeth a ddarparwyd. Gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat gan ddangos yr amrediad prisiau mwyaf (pan fo'n berthnasol).**

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd 30 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Cyn i mi ddechrau mynd i Ddeintyddfa Stryd y Cei, roeddwn i mor ofnus o ddeintyddion, a hynny i'r pwynt o gael pyliau o banig a byddwn i'n canslo apwyntiadau, ond ers mynychu Deintyddfa Quay Street, nid wy'n cael pyliau o banig mwyach nac yn canslo apwyntiadau. Mae'r holl staff yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus o'r eiliad rwy'n cerdded i mewn i'r feddygfa. Maen nhw i gyd yn gwrtais iawn a hon yw'r ddeintyddfa orau yng Nghaerdydd"*

> *"Mae staff y dderbynfa bob amser yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol. Rwy'n cael gofal ardderchog gan y deintyddion a'r hylenydd"*

> *"Mae'r gwasanaeth a'r ddeintyddiaeth a ddarperir gan y tîm bob amser wedi teimlo o safon uchel, ac mae iechyd fy nannedd a deintgig wedi gwella'n sylweddol"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom dystiolaeth fod gofal yn cael ei ddarparu i gleifion mewn modd urddasol a pharchus, er mai dim ond ychydig o le oedd ar gael i staff gael sgyrsiau gyda chleifion, ar wahân i'r ystafelloedd triniaeth. Clywsom staff yn siarad â chleifion yn gyfeillgar a phroffesiynol, ac roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis.

<u>Gofal amserol</u>

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai deintydd ar ei hôl hi.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos ar y teledu yn yr ystafell aros ac ar y ffenestr yn y practis.

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y mannau aros, gan gynnwys taflenni a phosteri'n darparu gwybodaeth. Roedd teledu'n hysbysu gwahanol fathau o driniaethau i'w weld yn y man aros, a gwnaethom nodi fod posteri'r GIG yn cynnwys gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y dderbynfa/man aros, a wnaeth gadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

Gofal unigol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos yn yr ardal aros, gan gynnwys posteri hybu iechyd deintyddol, taflenni triniaeth, a rhestr brisiau. Yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2.4), dylai'r practis gynnwys (pan fo'n berthnasol) yr amrediad prisiau uchaf ar gyfer triniaeth breifat.

Roedd systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a dderbyniwyd gan y practis. Gwelsom hefyd fod gweithdrefn gwyno ar waith yn y practis. Roedd y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau amgen a allai gynorthwyo cleifion gyda'u pryderon pe na bai'r rheiny yn cael eu datrys yn lleol, gan gynnwys manylion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd y gweithdrefnau cwyno ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat wedi'u harddangos yn y man aros.

Dywedodd staff wrthym fod adborth ar lafar gan gleifion yn cael ei gofnodi ar y system gyfrifiadurol electronig, a bod arolygon ffurfiol yn cael eu cyflwyno trwy'r brif swyddfa a bod y canlyniadau'n cael eu hanfon at y practisau i'w gweithredu (pan fo'n berthnasol). Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion (boed ar lafar neu trwy arolygon y brif swyddfa) yn cael ei drafod gyda'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Dywedodd staff wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cael eu dogfennu. Fodd bynnag, ar adeg yr ymweliad, nid oedd unrhyw gofnodion ar gael, felly nid oedd modd gwneud unrhyw sylwadau ynglŷn â chanlyniadau'r cyfarfodydd a thystiolaeth o unrhyw ddysgu o ganlyniad i gyfarfodydd staff.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion.**

**Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn ategu'r canllawiau a'r dulliau archwilio angenrheidiol. Gwelsom dystiolaeth i ddangos fod yr offer a'r prosesau dadheintio yn cael eu gwirio yn rheolaidd.**

**Gwnaethom argymell y dylid gwella cofnodion cleifion trwy sicrhau bod modd canfod yr holl gofnodion yn rhwydd a bod papurach priodol yn cael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng cleifion y GIG a chleifion preifat. Gwnaethom hefyd hysbysu o'r angen i sicrhau bod cynlluniau triniaeth yn cynnwys gwybodaeth lawn a chynhwysfawr a bod angen bod yn benodol ynghylch triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat (pan fo'n berthnasol) – a chynnwys costau.**

**Gwnaethom hefyd argymell y dylid cynnal adolygiad o amgylcheddau'r ddeintyddfa. Roedd hyn oherwydd gwnaethom ganfod problemau a fyddai'n atal gweithdrefnau croes-heintio effeithiol oherwydd cyflwr rhai o'r cypyrddau a'r offer.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei gadw'n ddiogel y tu allan i'r practis. Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Roedd adeilad y practis wedi cael ei ail-frandio gyda'r enw My Dentist a'r logos a'r lliwiau nod masnach. Roedd adeilad y practis yn fach o ran maint gyda derbynfa a man aros cynllun agored. Roedd un ystafell driniaeth wedi'i lleoli

wrth ymyl y dderbynfa. At y llawr isaf, roedd dwy ystafell driniaeth, ystafell ddadheintio, cegin staff a thoiled i'r staff/cyhoedd i'w rannu. Gallai unrhyw bobl â phroblemau symudedd ddefnyddio'r cyfleusterau ar y llawr daear, ond dim ond trwy ddefnyddio'r grisiau yr oedd y mannau ar y llawr isaf, yn cynnwys y toiled cyhoeddus, yn hygyrch. Roedd y toiled cyhoeddus yn fach o ran maint ac nid oedd unrhyw ganllawiau na lle ar gyfer cymhorthion cerdded.

O arsylwi ar gyflwr yr ystafelloedd triniaeth, daeth i'r amlwg bod angen gwneud gwelliannau. Yn benodol, gwnaethom nodi bod dolenni'r droriau wedi cyrydu mewn un ystafell driniaeth ac roedd diffyg lle ar yr arwynebau oherwydd nifer yr eitemau oedd yn cael eu storio arnynt. Roedd y gorchudd wedi'i lamineiddio ar y droriau yn ystafell driniaeth dau wedi'i ddifrodi, ac yn ystafelloedd triniaeth dau a thri, nid oedd modd cau'r biniau. Roedd y gorchudd wedi'i lamineiddio wedi plicio yn ystafell driniaeth tri hefyd, ac roedd tâp trwchus ar yr unedau. Nodwyd arwyddion o gyrydu hefyd. Mae angen rhoi sylw ar unwaith i'r ardaloedd hyn er mwyn sicrhau bod modd eu glanhau'n rhwydd yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cynnal adolygiad o'r amgylchedd, ac yn benodol yr ystafelloedd triniaeth. Rhaid i bob uned ac offer deintyddol fod mewn cyflwr boddhaol i leihau problemau o ran rheoli heintiau a chaniatáu triniaethau deintyddol diogel.***

***Mae angen cynnal adolygiad o'r holl finiau, ac yn benodol y rhai yn yr ardaloedd clinigol, a rhaid cael biniau pedal a weithredir â phedal yn eu lle, sy'n gallu cau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.***

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

*Rheoli heintiau*

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Dangosodd ein harsylwadau fod y broses hon yn foddhaol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sinc benodol i olchi dwylo.

- Roedd llyfrau cofnodion wedi cael eu cadw ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio, gan gynnwys profi dyddiol

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru, a oedd yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da o ystyried bod rhychwant cynnwys yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr log ar waith ar gyfer pob peiriant awtoclaf a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

*Cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng a chyfarpar dadebru*

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelwyd bod y cyffuriau brys a gedwir yn y practis yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd gan y practis system er mwyn tystio bod gwiriadau yn cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli â'u dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).[2]

Roedd dau swyddog cymorth cyntaf penodedig yn y practis.

*Diogelu*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i alluogi staff i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a gyflenwir ar gyfer cleifion. Dywedodd y practis wrthym hefyd fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ond nid oedd tystysgrifau un aelod o'r staff ar gael ar adeg ein hymweliad. Cadarnhaodd y staff eu bod yn aros am y tystysgrifau a byddant yn cael eu rhoi yn eu ffeil i ddangos tystiolaeth o'r hyfforddiant gofynnol mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

*Offer radiograffeg*

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X digidol, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn gyson â safonau a rheoliadau presennol. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod yr holl staff a oedd yn ymwneud â thynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Roedd hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom sylwi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn ac yn cael ei chynnal fel sy'n ofynnol, gan gynnwys y llythyr hysbysu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cydnabod bod profion pelydr-X yn cael eu cynnal yn y practis.

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Byddai hyn yn amlygu problemau posibl â'r broses o dynnu delweddau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau, pe bai angen, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am ofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cefnogi gan sganiau pelydr-X da a chlir.

## Gofal effeithiol

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeuddeg o gofnodion cleifion yn y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod rhai problemau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

- Ni lwyddwyd i ganfod dau gerdyn cofnod y gofynnwyd amdanynt ar adeg ein hymweliad
- Roedd papurach y GIG (FP25A) yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion nad oeddent yn gysylltiedig â'r GIG
- Papurach y GIG yn anghyson o ran storio/argaeledd. Nodwyd bod Taflenni Cofrestru Cleifion y GIG wedi'u storio yn nhrefn y misoedd ac nid ar gardiau cofnod cleifion. Gwnaethom ofyn i'r practis ystyried sganio'r gwaith papur i gofnodion y cleifion.
- Nid oedd rhif y cwrs o driniaeth (COT) a'r dyddiad cwblhau triniaeth (TC) wedi'u nodi'n gyson ar Daflenni Cofrestru Cleifion y GIG.
- Dylai cynlluniau triniaeth cleifion amlinellu'n glir y dewisiadau o ran triniaethau, boed nhw'n rhai'r GIG a/neu'n rhai preifat, a'r costau cysylltiedig

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cynnal adolygiad o'r dulliau storio cofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod modd cael gafael ar bob cofnod cleifion.***

***Mae angen cynnal adolygiad o'r arferion cofnodi gwybodaeth am gleifion er mwyn sicrhau bod y papurach cywir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.***

***Rhaid i'r cynlluniau triniaeth gynnwys gwybodaeth lawn a chynhwysfawr, yn cynnwys triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat pan fo'n berthnasol, a'r costau ar gyfer hynny.***

***Mae angen i ffurflenni'r GIG, a'r Taflenni Cofrestru Cleifion yn benodol, gael eu cwblhau a'u storio'n briodol yn gyson.***

Roedd y cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.  Gwelsom fod y practis yn cwblhau archwiliadau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau rheoli heintiau a phelydr-X. Cadarnhaodd y staff mai ychydig o weithgarwch adolygu gan gymheiriaid oedd yn digwydd, ac mae hwn yn faes y dylid ei ystyried er mwyn gwella arferion yn barhaus.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Gwnaethom argymell y dylai'r staff gael arfarniadau rheolaidd a'u cofnodi.**

Mae My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei yn rhan o grŵp o bractisau, gyda'r practisau eraill wedi'u lleoli ar draws y DU. Mae tîm rheoli'n cefnogi'r practis, ond rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel ac yn amserol. Roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny hefyd trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a thrwy drafodaethau ag aelodau staff y tîm deintyddol.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis.  Gwnaethom nodi bod ffurflen rheoli fersiynau ynghlwm wrth y polisïau a oedd yn cynnwys gwybodaeth megis yr awdur, y dyddiad cyhoeddi a dyddiad yr adolygiad nesaf. Nodwyd bod hyn yn arfer nodedig oherwydd ei fod yn rhoi sicrwydd bod systemau ar waith ar gyfer adolygu'r polisïau'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai polisïau (Argyfwng Meddygol, Cyfle Cyfartal a Diogelu) nad oedd wedi cael eu hadolygu yn unol â'r dyddiadau adolygu cynlluniedig.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cynnal adolygiad o'r polisïau a'r gweithdrefnau i sicrhau eu bod wedi cael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni a nodwyd a/neu'r arferion gorau.***

Roedd y staff i gyd wedi llofnodi a dyddio taflen i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau. Cafodd hyn ei gydnabod eto fel arfer da, gan sicrhau bod y staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o ran y gwasanaethau a ddarperir yn y practis.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus yn gwneud eu swyddi a'u bod yn derbyn y gefnogaeth a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt.  Canfuom hefyd fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn cwrs sefydlu, a'u bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau ac yn ymgymryd â hyfforddiant hanfodol.

O drafod â'r staff, cafwyd cadarnhad nad oedd arfarniadau rheolaidd wedi cael eu cynnal, a gwnaethom argymell y dylid eu cynnal er mwyn rhoi cyfle i'r staff adlewyrchu ar eu gwaith a chanfod unrhyw hyfforddiant perthnasol sy'n ofynnol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid cynnal a chofnodi arfarniadau rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff.***

Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm rheolaidd a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion ar y safle i'w hadolygu. Dylai'r practis ystyried cael system lle byddai cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael er mwyn caniatáu i unrhyw aelodau staff na fyddai'n gallu mynychu cyfarfod, adolygu'r cofnodion a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion y practis.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system ar waith i amddiffyn cleifion a staff rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod yr holl ddeintyddion sy'n darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru ag AGIC a bod eu tystysgrifau cofrestru'n cael eu harddangos yn amlwg yn y practis, yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd gan bob aelod o'r staff clinigol dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, a nodwyd gennym fod hyn yn arfer da oherwydd ei fod yn rhoi sicrwydd pellach bod staff yn addas i weithio gyda phlant ac oedolion a allai fod yn agored i niwed.

.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn glir pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig, ac o fewn amserlen y cytunir arni. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso yn rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: My Dentist, Clinig Deintyddol Stryd y Cei

## Dyddiad yr Arolygiad: 21 Mawrth 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | ***Amherthnasol*** | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | ***Mae angen cynnal adolygiad o'r amgylchedd, ac yn benodol yr ystafelloedd triniaeth. Rhaid i bob uned ac offer deintyddol fod mewn cyflwr boddhaol i leihau problemau o ran rheoli heintiau a chaniatáu triniaethau deintyddol diogel.*** | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru<br><br>14 (3) (a) (b) a (6) | Mae'r practis wedi cael dyfynbris am y gwaith o atgyweirio/adnewyddu'r ardaloedd sydd wedi difrodi a threulio ym mhob ystafell driniaeth.<br><br>Rydym bellach yn cadarnhau'r dyddiadau er mwyn cael y gwaith hwn wedi'i wneud, oherwydd bydd rhaid cydlynu'r gwaith pan na fydd y practis/ystafelloedd triniaeth yn | Rheolwr y Practis/Tîm Cyfleusterau | Erbyn diwedd mis Awst 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cael eu defnyddio. | | |
| 8 | ***Mae angen cynnal adolygiad o'r holl finiau, ac yn benodol y rhai yn yr ardaloedd clinigol, a rhaid cael biniau pedal a weithredir â phedal yn eu lle, sy'n gallu cau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.*** | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru<br>14 (3) (a) (b) a (6) | Cynhaliwyd adolygiad o'r holl finiau yn rhan o'r gwaith gofynnol ym mhob un o'r tair ystafell driniaeth, a byddant yn cael eu hatgyweirio neu bydd rhai newydd yn dod yn eu lle er mwyn cydymffurfio. | Rheolwr y Practis/Tîm Cyfleusterau | Diwedd mis Awst 2017 |
| 11 | ***Mae angen cynnal adolygiad o'r dulliau storio cofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod modd cael gafael ar bob cofnod cleifion.*** | Safonau Iechyd a Gofal 3.5 | Mae'r holl gardiau cleifion yn cael eu cadw yn nhrefn yr wyddor erbyn hyn, ac mae hyn wedi'i wirio. Cedwir yr holl waith papur yn y practis, ac unwaith y bydd triniaeth wedi'i chwblhau, caiff y gwaith papur ei sganio ar y system R4 ac ar gerdyn electronig y claf hefyd. | Rheolwr y Practis / Tîm y Dderbynfa | 26 Mai 2017 |
| 11 | ***Mae angen cynnal adolygiad o'r arferion cofnodi gwybodaeth am gleifion er mwyn sicrhau bod y papurach cywir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.*** | Safonau Iechyd a Gofal 3.5 | Mae'r papurach cywir wedi'i archebu erbyn hyn, a chânt eu defnyddio fel bod modd gweld yn glir os yw'n glaf y GIG neu'n glaf preifat. | Rheolwr y Practis | 30 Mehefin 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | ***Rhaid i'r cynlluniau triniaeth gynnwys gwybodaeth lawn a chynhwysfawr, yn cynnwys triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat pan fo'n berthnasol, a'r costau ar gyfer hynny.*** | Safonau Iechyd a Gofal 3.5 | Mae'r cynlluniau triniaeth wedi cael eu trafod gyda'r tîm, yn ogystal â pha mor bwysig yw cynnwys gwybodaeth lawn - gellir argraffu'r cynllun triniaeth hefyd oddi ar y system R4 a'i atodi i'r ddogfen FP17DC fel bod modd i'r claf gael manylion y driniaeth wedi'u hysgrifennu'n llawn yn ogystal â lluniau. Mae'r rhain hefyd yn nodi manylion costau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat ar wahân fel bod dim dryswch. Hysbyswyd tîm y dderbynfa bod rhaid i'r Deintydd siarad â'r claf os oes unrhyw ddryswch er mwyn cadarnhau'r driniaeth a'r gost. | Rheolwr y Practis / Tîm y Dderbynfa / Tîm Clinigol | 16 Mehefin 2017 |
| 11 | ***Mae angen i ffurflenni'r GIG, a'r Taflenni Cofrestru Cleifion yn benodol, gael eu cwblhau a'u storio'n briodol yn gyson.*** | Safonau Iechyd a Gofal 3.5 | Siaradwyd â'r staff a chadarnhawyd y gwaith papur y mae'n rhaid ei gwblhau. Bydd hyn hefyd cael ei archwilio er mwyn gwirio cysondeb. Bydd y ffurflenni wedyn yn cael eu sganio i gopi electronig y claf o'r nodiadau a hefyd yn cael eu cadw ar ffurf cerdyn cofnod papur yn nhrefn yr | Rheolwr y Practis / Tîm y Dderbynfa – y staff clinigol hefyd yn ymwybodol | 16 Mehefin 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | wyddor. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12 | ***Mae angen cynnal adolygiad o'r polisïau a'r gweithdrefnau i sicrhau eu bod wedi cael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni a nodwyd a/neu'r arferion gorau*** | Safonau Iechyd a Gofal 3.4<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br><br>6.6.8 a 6.6.9 | Mae'r practis yn defnyddio system fewnol o'r enw Mycomply, sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol, oherwydd mae'r system hon yn creu tasgau wythnosol i reolwr y Practis sicrhau bod y terfynau amser gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau yn cael eu bodloni.<br><br>Mae'r system hefyd yn weladwy i'r rheolwyr llinell a Swyddogion Rheoleiddio'r cwmni er mwyn monitro cydymffurfiaeth. | Rheolwr y Practis | Parhaus |
| 13 | ***Rhaid cynnal a chofnodi arfarniadau rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff.*** | Safonau Iechyd a Gofal 7.1<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6 | Mae arfarniadau staff wedi cael eu hystyried fel cyfanwaith o fewn y busnes, ac maent i fod i gael eu cynnal ym mis Mehefin. Byddant wedyn yn cael eu cwblhau bob blwyddyn neu byddant yn cael eu hadolygu yn ystod sesiynau un i un a gynhelir gyda'r tîm ar unrhyw adeg ofynnol. | Rheolwr y Practis | Mehefin 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .....Lisa O'Leary.............................................................................

**Teitl:** .....Swyddog Rheoleiddiol............................................................

**Dyddiad:** ....26.5.17.....................................................................................